

FRÂN WEN

CROENDENA



PECYN
ADNODDAU
CREADIGOL

CAST A CHRIW

CAST

Betsan Ceiriog

TÎM CREADIGOL A CHYNHYRCHU

Cyfarwyddwr / Director
Dramodydd / Playwright
Cyfansoddwr / Composer
Cynllunydd Set / Set Designer
Cynllunydd Goleuo / Lighting Designer
Rheolwr Llwyfan / Stage Manager
Rheolwr Cynhyrchu / Production Manager
Technegydd Goleuo / Lighting Technician
Technegydd Sain / Sound Technician
Capiynu / Captioning
Gweithredydd Capiynau / Captioning Operator

Rhian Blythe
Mared Llywelyn
Sam Humphreys
Cai Dyfan
Ceri James
Martha Davies
Lewis Williams
Daniel Crookes
Carwyn Williams
Chris Harris
Elis Pari

ADNODDAU YCHWANEGOL

Dylunio / Visual branding
Lluniau / Photos
Pecyn Dysgwyr Cymraeg / Welsh Language Learner Pack
Dehonglydd BSL / BSL Interpreter

Sïan Angharad
Kristina Banholzer
Lowri Mair Jones
Cathryn McShane-Kouyaté

FRÂN WEN

Cyfarwyddwr Artistig / Artistic Director
Cyfarwyddwr Gweithredol / Executive Director
Rheolwr Cynhyrchu a Thechnegol / Production and Technical Manager
Cyfarwyddwr Cwmni Ifanc / Young Company Director
Cyfarwyddwr Cymunedol / Community Director
Rheolwr Marchnata / Marketing Manager
Swyddog Gweinyddol / Administrative Officer
Crewr Cynnwys Digidol / Digital Content Creator
Techengydd / Technician

Gethin Evans
Nia Jones
Lewis Williams
Nia Hâf
Elis Pari
Carl Owen
Olwen Williams
Hedydd Ioan
Daniel Crookes

TÎM CREADIGOL

CROENDENA



DRAMODYDD

MARED LLYWELYN

Mae'r dramodydd o Nefyn yn aelod o Gwmni Tebot sy'n ysgrifennu, cyfarwyddo a pherfformio darnau newydd o theatr cymunedol.

Disgrifia beth oedd cam cyntaf y broses o ysgrifennu Croendena?

Y cam cyntaf o ysgrifennu Croendena oedd gweithio ar driniaeth o'r ddrama - sef canolbwyntio ar y llinyn storiol a'r cymeriadau. Mae'r themâu a'r syniadau cyffredinol yn bodoli'n barod, ond mae'n rhaid bod yn sicr efo'r digwyddiadau a'u harwyddocâd. Dyma'r tro cyntaf i mi weithio mor fanwl cyn dechrau ysgrifennu!

Oedd siwrna Nel wedi ei sefydlu o'r cychwyn?

Wrth weithio mwy a mwy ar y sgript mae Nel yn cael ei gwthio i lefydd anghyfarwydd ac anodd. Mi roedd ei siwrna hi wedi ei sefydlu o'r cychwyn mewn ffordd, ond roedd angen bod yn fwy eithafol mewn rhai mannau i ddangos sut mae hi'n datblygu fel person.

Beth yw dy obeithion am y ddrama?

Gobeithio bydd pobl yn mwynhau'r ddrama, mae Betsan Ceiriog yn siŵr o wneud i bobl chwerthin wrth actio Nel. Ond mae 'na ddipyn o haenau i Nel, gyda rhannau mwy dwys, a rhannau sydd (gobeithio) yn mynd i roi tân ym moliau pobl.

Croendena mewn 1 tweet

Stori am berthynas merch ifanc gyda'i ffrindia, hogia, ei chymuned, a'i hun.

TÎM CREADIGOL

CROENDENA

CYFARWYDDWR

RHIAN BLYTHE

Beth yw dy weledigaeth di ar gyfer y cynhyrchiad?

Yr hyn dwi wedi ceisio ei neud gyda'r cynhyrchiad ydi dod ac egni ifanc, anniddig y cymeriad wyneb yn wyneb â grym hynafol y mynyddoedd. Mae yna ddeuliaeth ddiddorol yma rhwng perthynas cymeriad Nel â'i chorff o gig a gwaed, a'i pherthynas hi a'r corff o dir sydd yn ei hamgylchynu, a'i dal.



Mae'r ddau rym anniddig yma yn dod ben ben, cyn plethu'n gelfydd ar ddiwedd y ddrama pan mae Nel yn darganfod pwrpas amgenach na phoeni am sut mae'n ymddangos i eraill, pwrpas sy'n ei chlymu i'r tir. O'r diwedd mae ei thaith yn ei harwain yn ôl i rywle, at rywbeth dwfn y tu mewn iddi. Teimlad o berthyn. Teimlad o gariad dwfn at le, at bobol, at iaith. Ac ie, ati hi ei hun hefyd.

Mae cylchoedd hefyd yn bwysig, fel y cylchoedd sy'n lledu pan deflir carreg ar ddŵr llonydd. Y cylch cyntaf ydi Nel. Yna ei hadlewyrchiad, y Nel honno a wêl yn y drych. Wedyn daw ei chylch agos o ffrindiau, yna ei chyfoedion, y wê ac effaith a phwysau hynny arni. Ar ôl rhain daw ei theulu a'i pherthynas a'r gymuned y mae'n perthyn iddi.

Ac yn ola' mae'r môr sydd yn amgylchynu ei hynys gyda'r tir dan draed yn "estyn ei braich at y llinell yna sydd ddim yn bod" ac at ei dyfodol hithau, ei yfory heb ei dwtsiad.

Beth yw'r momentau allweddol yn y ddrama i ti?

Mae Nel yn esgyn i ben Garn dair gwaith yn ystod y ddrama, y tro cyntaf mae'r haul yn gwmni iddi, ond mae ei ffôn yn llosgi ym mhoced ei jîns a dydi hi'n sylwi dim ar y grug na'r brwgait. Yr eil dro does dim ar y copa ond niwl a fisitors, dim lle i enaid gael llonydd. Ond erbyn y trydydd tro mae rhimyn arian ar hyd y cymylau, ac mae Nel yn barod i wrando, i ddysgu, i faddau ac i symud ymlaen.

Pa brofiad wyt ti'n gobeithio bydd y gynulleidfa yn ei gael wrth wyllo Croendena?

Dwi'n gobeithio yr aiff y gynulleidfa gyda Nel i fyny'r mynydd y trydydd to ac y teimla' nhw'r dadeni yma ynddi a'i bod hi, ar ddiwedd y ddrama ar fin cychwyn ei thaith. A phwy a wŷr na wnaiff hynny ddeffro rhywbeth yn rhai ohonyn' nhw' hefyd.

TÎM CREADIGOL

CROENDENA




CYFANSODDWR A CHYNLLUNYDD SAIN

SAM HUMPHREYS

Disgrifia'r broses o greu cerddoriaeth a sain ar gyfer y cynhyrchiad?

Roedd yn broses arbrolfol lle roeddwn i yn y 'stafell ymarfer drwy gydol y cyfnod wrth i Rhian a Betsan weithio drwy'r sgript. Roedd hyn golygu bod modd arbrofi a thrio pethau allan yn arbennig wrth gyfuno synau electronig modern hefo synau traddodiadol ac acwstig er mwyn adlewyrchu deuoliaeth technoleg y byd modern a thirwedd a natur. Mae arbrofi mor bwysig er mwyn gwneud yn siŵr fod y gerddoriaeth yn cynnal a chefnogi'r hyn sy'n digwydd ar y llwyfan.



Dewisia olygfeydd penodol yn y ddrama lle mae'r gerddoriaeth a'r sain yn chwarae rhan allweddol a pham?

Mae nifer o olygfeydd lle mae'r gerddoriaeth yn helpu i ddeud y stori. Mae 'na olygfa pan mae Nel yn mynd i ben Garn i gael llonydd ac ymlacio ac mi roeddwn i'n gallu cysylltu hefo'r delweddau oedd Mared yn awgrymu yn fan hyn. Dw i o Nefyn yn wreiddiol a dw i'n cofio pan o'n i'n dod adra faswn i'n mynd i'r lle arbennig yma. Felly naws eitha 'etherial' yn defnyddio piano, gitâr acwstig a thelyn ar gyfer creu awyrgylch eitha breuddwydiol a braf yn fan hyn. Mae 'na olygfa hefyd sy'n trafod gobeithion a chynnwrf Nel wrth iddi baratroi ei hun am ei dêt, ac mae'r gerddoriaeth yn ceisio adlewyrchu hyn ac yn codi sawl tro yn y ddrama. Mae 'na olygfeydd dwys iawn sy'n gofyn am awyrgylch tyner ac i'r gwrthwyneb ma na olygfeydd hwyliog mewn pyb sydd â cherddoriaeth electronig a phrysus felly mae'r gerddoriaeth yn allweddol i helpu'r gynulleidfa symud o un olygfa i'r llall.

ADNODD Traciau sain soundcloud.com/franwen/sets/croendena

TÎM CREADIGOL **CROENDENA**



CYNLLUNYDD SET A GWISGOEDD

CAI DYFAN

Sut es di ati i gynllunio ar gyfer cynhyrchiad fel Croendena?

Ar ôl darllen y sgript a'i ddadansoddi'n fanwl, cefais gyfarfodydd a sgysiau creadigol manwl efo'r cyfarwyddwr, Rhian. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar lot o ddelweddau oedd yn ein cyffroi ni ac yn ffitio ym myd y ddrama. Mae'n broses o ymchwilio a thyrchu drwy lyfrau, ffotograffau a gwneud sgetsys bras i ddod o hyd i ryw siâp, neu awyrgylch sy'n gweithio i ni.

Es i ati wedyn i greu model bychan o'r set er mwyn ein galluogi i fanylu ar y syniad ac ystyried sut mae golau yn ei effeithio, chwarae efo maint y set, a gweld sut mae ffigwr yn edrych yn y gofod. Mae hwn yn gyfle i'r tîm technegol gael golwg ar y cynllun hefyd, i Lewis Williams y Rheolwr Cynhyrchu a Ceri'r Cynllunydd Goleuo ei weld a chynnig eu syniadau gwerthfawr i ddatblygiad y darn. Mae'n gydweithrediad rhwng amryw o bobl gydag amrywiaeth fawr o sgiliau.

Pa agweddau o'r sgript oedd yn cydio yn dy ddychymyg di?

O'r darlenniad cyntaf, ro'n i wrth fy modd gyda'r ffordd hyfryd roedd Mared yn mynd o fonolog eithaf realistig, yn llawn tafodiaith a hiwmor Pen Llŷn, i ddarnau barddonol a haniaethol am yr ardal a'r tirwedd. Mae'r fro, ei phobl a'i mynyddoedd yn amlwg yn golygu lot fawr i'r awdur, ac mae hi wedi bod yn bleser ceisio dod a hwn yn fyw mewn rhyw ffordd fechan ar lwyfan.


Tre'r Ceiri, ysbrydoliaeth i'r set



Sgetsys gwreiddiol Cai



Model o'r set gan Cai



ADOLYGU

ADOLYGU CROENDENA

YSGRIFENNU ADOLYGIAD THEATR

Does yna ddim rheolau i ysgrifennu adolygiad theatr. Mynegi eich barn bersonol chi a'ch teimladau chi am gynhyrchiad ydych chi. Does yna ddim ffordd gywir nac anghywir o fynd ati. Yr hyn sy'n bwysig ydy i chi ddod o hyd i lais unigryw eich hun ac i fod yn onest am beth wnaethoch chi ei fwynhau neu ddim ei fwynhau am y cynhyrchiad. Darllenwch adolygiadau ac ewch i weld nifer o gynyrchiadau a thrafodwch hefo'ch ffrindiau a'ch teulu i ddod o hyd i iaith a ffordd unigryw eich hun i drafod theatr. Cofiwch fod yn greadigol wrth ei ysgrifennu ac i gael hwyl yn ei ysgrifennu. Does gan neb ddiddordeb darllen adolygiad sych a diflas!

Y peth pwysicaf o bosib i'w gofio ydy mai trafod profiad theatrig byw ydych chi. Wrth ysgrifennu adolygiad mae angen rhoi blas o'r cynhyrchiad a chreu darlun byw ohoni.

Efallai nad oes yna reolau ond mae yna ganllawiau a all fod o gymorth wrth fynd ati i ysgrifennu. Yn draddodiadol mae adolygiad yn dechrau drwy osod cefndir. Yna ceir syniad o stori a thema yn ogystal â nodweddion gweledol neu glywedol e.e. y set, gwisgoedd, sain a cherddoriaeth. Ceir gwerthusiad o'r ysgrifennu, y cynhyrchiad a'r perfformiadau ac yna casgliad o'r cyfan i gloi. Dyma gamau i'w hystyried wrth fynd at i ysgrifennu.

CYN GWELD Y DDRAWA

Mae modd gwneud dipyn o waith ymchwil o flaen llaw i gael dipyn o gefndir y cynhyrchiad a'r cwmni. Beth fedrwch chi ei ddysgu am y cynhyrchiad o safle we Frân Wen a thudalennau Facebook a Twitter y cwmni? Pa fath o waith mae Frân Wen yn ei gynhyrchu ac wedi ei greu yn y gorffennol? Pwy ydy'r tîm creadigol - cyfarwyddwr, actorion, cynllunydd, cyfansoddwyr ac ati?

Beth mae'r cwmni am i chi wybod am y ddrama cyn i chi ei gweld? Pa effaith mae'r poster i a'r marchnata yn ei gael arnoch chi?

ADOLYGU CROENDENA

YN YSTOD Y DDRAWMA

Ysgrifennwch nodiadau ond peidiwch â chydio yn eich llyfr nodiadau rhag ofn i chi golli unrhyw beth! Beth sydd yn eich taro chi? Beth sydd yn cael effaith arnoch chi? Oes yna linell neu frawddeg drawiadol yr hoffech chi dynnu sylw ati? Ydy perfformiad yr actorion yn drawiadol? Sut mae'r gerddoriaeth yn cael effaith arnoch chi? Beth am liwiau'r goleuo neu'r gwisgoedd?

WEDI'R DDRAWMA

Ysgrifennwch ddrafft cyntaf o'r adolygiad cyn gynted ag y medrwch chi rhag ofn i chi anghofio elfennau o'r profiad. Weithiau mae angen meddwl mwy am ddrama ac mae'n cymryd amser i ddadansoddi barn a theimlad am gynhyrchiad ond mae modd ychwanegu mwy wedi cael cyfle i feddwl. O ran strwythur yr adolygiad dyma bethau i'w hystyried.

CEFNDIR

Beth ydy cefndir y ddrama? Mae modd i chi osod naws hefyd yn y fan hyn. Sut ydych chi'n teimlo cyn i'r ddrama ddechrau? Beth ydych disgwyladau? Yn lle ydych chi'n gwyllo'r ddrama? Sut awyrgylch sydd yno?

GWEITHRED

Sut mae'r ddrama yn cael ei dehongli?
Beth sydd yn unigryw am y dehongliad?
Beth yw arddull y ddrama?

Sut mae holl elfennau'r cynhyrchiad (cerddoriaeth, gwisg, cyfarwyddo, technoleg, actio, symud, testun) yn cydweithio i greu cyfanwaith?

ADOLYGU CROENDENA

ELFENNAU ARBENNIG

Beth oedd yn unigryw am y cynhyrchiad? Sut effaith oedd hyn yn ei gael ar y ddrama, arnoch chi ac ar y gynulleidfa?

BARN

Oedd y cynhyrchiad yn llwyddiannus? Pam? Pam ddim?

Oedd yna elfennau gwan nad oedd yn taro deuddeg yn eich tŷb chi?

Beth oedd yn sefyll allan? Beth oedd yn arbennig e.e. yr actio, testun, cerddoriaeth?

Oedd y ffordd cafodd y ddrama ei chyflwyno yn gweddu'r ddrama? Pam?

Cofiwch roi rheswm ac i fanylu.

ARGYMELL

Fyddech chi'n argymell i rywun fynd i weld y ddrama? Pam? Pam ddim?

CLOI

Sut brofiad oedd gweld y cynhyrchiad? Ydych chi'n teimlo'n wahanol ar y diwedd i sut oedda chi ar y dechrau?

Beth gafodd effaith arnoch chi a beth fyddwch chi'n ei gofio am y cynhyrchiad?

Gellir clymu diwedd yr adolygiad hefo'r dechrau.

Mae Frân Wen wastad yn chwilio am bob cyfle posib i gasglu barn am eu cynyrchiadau.

Ewch amdani ac anfonwch eich adolygiad ymlaen atom i sylw carl@franwen.com.

PARATOI

PECYN ADNODDAU

CROENDENA

PARATOI AR GYFER PAPUR TGAU A TAG DRAMA

DATBLYGU SYNIADAU A DYLANWADAU

THEATR FYW

Mae'n holl bwysig eich bod yn mynd i weld cymaint o berfformiadau byw ac y gallwch. Dyma sut y byddwch yn gweld syniadau a pherfformiadau fydd yn eich hysbrydoli ac yn dylanwadu ar eich syniadau personol chi. Gwylwch ddramâu o bob math er mwyn i chi weld amrywiaeth o actorion wrth eu gwaith, cyfarwyddo diddorol ac ysbrydoledig a dyluniadau anghygoel o setiau, ac ochr dechnegol sy'n arloesol. Defnyddiwch y dylanwadau a'r syniadau hyn wrth fynd ati i berfformio, cyfarwyddo a dylunio eich dramâu gosod chi. Cofiwch fod yn rhaid i chi gyfiawnhau eich dewisiadau bob tro. Ewch i weld pob math o gynhyrchiadau Cymraeg a Saesneg a chynhyrchiadau NTLive.

YOU TUBE

Ewch ar 'You Tube' neu wefannau gwahanol gwmnïau theatr i wyllo clipiau o gynhyrchiadau amrywiol er mwyn casglu syniadau. Cadwch lyfr nodiadau o'r cynhyrchiadau, actorion, gwisgoedd, setiau a'r syniadau a ddylanwadodd arnoch.

YMCHWILIO

Gwnewch ymchwil ar 'Google' ynglyn â setiau diddorol o wahanol gynhyrchiadau. Lawrlwythwch luniau o'r setiau yma i greu casgliad o syniadau. Efallai y byddwch yn hoffi set minimalistaidd mewn un cynhyrchiad, dodrefn o un arall, a llwyfan sy'n troelli o gynhyrchiad arall. Chwiliwch am fathau diddorol o wahanol lwyfannau a cheisiwch feddwl a fyddai eich cynhyrchiad chi yn gweithio ar y llwyfan neu'r set arbennig hynny. Cofiwch gofnodi pwy sydd wedi cynllunio'r set ac o ba gynhyrchiad mae'n dod er mwyn i chi allu trafod y dylanwadau.

PECYN ADNODDAU

CROENDENA

CASGLU ADOLYGIADAU

Ewch ati i wneud casgliad o adolygiadau o'r we / papurau newyddion ac ati am Croendena. Ystyriwch farn yr adolygwyr ynglŷn â'r:

- Cyfarwyddo – arddull
- Actio – arddull, y cymeriadau, rhyngweithio, perthynas â'i gilydd,
- Dylunio set, LX, SFX, gwisgoed, gwallt a cholur.

Efallai y byddwch yn hoffi ambell syniad ac yn eu haddasu ar gyfer eich cynhyrchiad chi. Gwnewch nodiadau o'r syniadau yr ydych wedi eu hoffi a'r rhai efallai nad sydd wedi gweithio yn eich barn chi. Mae hyn yn gymorth i chi ddatblygu meddwl beirniadol ac i allu gweld beth sy'n apelio atoch chi fel cyfarwyddwr, dylunydd neu actor.

Dyma'r ffordd orau i ddatblygu meddwl creadigol fel y gallwch fynd i mewn i'r arholiad Drama yn llawn hyder.



PAPUR

TGAU

A TAG

ADOLYGU THEATR BYW

CROENDENA

TGAU: ADOLYGIAD O THEATR FYW

Yn dilyn gweld perfformiad o Croendena, ewch ati i baratoi nodiadau manwl ar y canlynol er mwyn i chi allu ateb **ADRAN B** y papur arholiad.

CYFLWYNIAD

- Beth oedd teitl y cynhyrchiad, a phwy oedd yr awdur?
- Pwy oedd y Cwmni?
- Ymhle welsoch chi'r cynhyrchiad?

Y SET

- Disgrifiwch y set yn fanwl. Beth oedd y set yn ei gyfleu?
- Pwy oedd wedi dylunio'r set? Ydych chi wedi gweld gwaith y person yma o'r blaen?
- Oeddech chi'n hoffi'r set? Pam? Pa liwiau oedd yn y set? Pa awyrgylch oedd yn cael ei greu?
- Arddull y set – oedd hi'n set naturiolaid / symbolaidd / minimalistaidd?

Y PLOT

- Dywedwch ychydig am y stori. Beth oedd yn digwydd?
- Pa themâu oedd yn y ddrama? Beth oedd yr awdur yn ceisio'i ddweud wrthym?
- Dewiswch un o'ch hoff olygfeydd ac eglurwch pam.
- Dewiswch olygfa allweddol arall ac eglurwch pam.

ADOLYGU THEATR BYW

CROENDENA

YR ACTORION

- Dewiswch un o'ch hoff actorion, a thrafodwch pam roedden nhw'n gredadwy. Beth oedd yn dda amdany'n nhw? Trafodwch y canlynol:
 - y defnydd o lais
 - y defnydd o'r corff / symud ar lwyfan
 - rhyngweithio
 - ymateb y gynulleidfa.

Y CYFARWYDDO

- Oedd y cyfarwyddwr wedi llwyddo i ddehongli'r ddrama yn llwyddiannus? Sut fath o gynhyrchiad oedd hwn? A gafodd y ddrama effaith arnoch chi?
- Pa arddull oedd yn cael ei defnyddio – oedd yr arddull yn llwyddiannus?
- Oedd y cynhyrchiad yn symud yn dda – e.e. newid tempo, emosiwn ac ati, er mwyn cynnal eich diddordeb?
- Oedd yna unrhyw beth nad oeddech chi'n ei hoffi o ran y cyfarwyddo?

GWISGOEDD

- Sut wisgoedd oedd gan y cymeriadau – i ba gyfnod oedden nhw'n perthyn? Beth oedd arddull y cynhyrchiad?
- Pwy oedd yn gyfrifol am y gwisgoedd? Oedd yna liw arbennig yn cael ei ddefnyddio drwy'r cynhyrchiad? Oeddech chi'n credu y byddai'r cymeriad _____ yn gwisgo'r math o ddillad oedd ganddo?
- Dewiswch olygfa allweddol o'r ddrama ac eglurwch sut oedd y gwisgoedd yn cael eu defnyddio i greu cymeriad a chyfleu ystyr y ddrama.

ADOLYGU THEATR BYW

CROENDENA

Y GOLEUO A'R SAIN

- Oedd yr LX a'r SFX yn ychwanegu at awyrgylch y ddrama?
- Yr LX – goleuo – sut oedd y goleuo'n creu'r awyrgylch briodol?
- Oedd yna unrhyw liw arbennig? Gobo? Ar ba ganran % oedd y goleuo? Pwll o olau, golau sbot, golau LED
- Beth oedd yn digwydd ar ddiwedd golygfa? Croes bylu, snap, pylu'n araf, duwch?
- Yr SFX – sain. Oedd cerddoriaeth yn rhan o'r ddrama? Ar y dechrau / diwedd / fel rhan o'r ddrama er mwyn creu awyrgylch?
- Sut fath o gerddoriaeth oedd hi? Pwy oedd wedi ei chyfansoddi?
- Oedd yna gerddoriaeth neu sain o dan y ddeialog? e.e. tansgorio (underscore) neu drôn?
- Oedd yna 'Leit motif' yn rhan o'r gerddoriaeth?
- Oedd yna synau SFX eraill yn rhan o'r ddrama - car, ci yn cyfarth, ffôn yn canu, glaw, gwynt? Pa mor effeithiol oedden nhw?
- Oedd yna ganu yn rhan o'r cynhyrchiad? Oedd y canu'n llwyddiannus?

DIWEDDGLO

- Wnaethoch chi fwynhau'r perfformiad?
- Fyddech chi'n hoffi mynd i weld y cwmni eto?
- Gafodd y cwmni yma argraff arnoch? Pam?
- Pa argraff a adawyd ar y gynulleidfa – oedden nhw'n mynd allan dan wenu, wedi'u cythruddo, wedi'u syfrdanu?

DYLANWAD THEATR BYW

CROENDENA

TAG: DYLANWAD THEATR FYW AR EICH DEHONGLIAD O'R DDrama OSOD

Yn dilyn gweld perfformiad o Croendena, ewch ati i wneud nodiadau manwl gan ddadansoddi a gwerthuso pa elfennau o'r cynhyrchiad wnaeth ddylanwadu ar eich dehongliad chi o'r ddrama osod yr ydych yn ei hastudio.

- Beth oedd teitl ac awdur y cynhyrchiad?
- Pwy oedd y Cwmni?
- Ymhle welsoch chi'r cynhyrchiad?

Y DYLUNIAD / SET

- Pa fath o lwyfan a ddefnyddid ar gyfer y cynhyrchiad? A fyddai'r math yma o lwyfan yn gweithio ar gyfer eich drama osod? Pam?
- Pwy oedd wedi dylunio'r set?
- Beth oedd y set yn 'i gyfleu? A oedd themâu'r ddrama yn ymddangos yn y set – e.e. unigrwydd cymeriad, caethiwed, cariad, diffyg ystyr, tlodi ayb.
- A fyddai rhai o'r syniadau hyn yn gweithio ar gyfer eich set chi o'r ddrama osod? Pa rannau o'r set oedd wedi dylanwadu arnoch chi a pham?
- Pa liwiau oedd yn y set? Pa awyrgylch oedd yn cael 'i greu? A fyddai'r lliwiau yma yn gweithio ar gyfer eich cynllun chi?
- Beth oedd arddull y set - a oedd hi'n set naturiolaid / symbolaidd / mini milistaidd? Pa arddull ydych chi am ei ddefnyddio ar gyfer y ddrama osod? Pa ddylanwadau o'r cynhyrchiad sydd ar eich dyluniad chi?

DYLANWAD THEATR BYW

CROENDENA

YR ACTORION :

- A oedd perfformiad rhai o'r actorion o'r cymeriadau wedi dylanwadu ar eich dewis chi o actor/ actorion ar gyfer eich drama osod? Pam? Beth oedd yn dylanwadu arnoch:
 - y modd roedden nhw'n defnyddio'r llais?
 - y modd roedden nhw'n defnyddio'r corff – symud
 - y rhyngweithio rhwng gwahanol gymeriadau oedd yn dylanwadu ar y berthynas a'r rhyngweithio yn eich drama osod.

Y CYFARWYDDO :

- A oedd y cyfarwyddwr wedi llwyddo i ddehongli'r ddrama yn llwyddiannus? Sut fath o gynhyrchiad oedd o – a effeithiodd y ddrama arnoch chi?
- Pa arddull oedd yn cael ei ddefnyddio – oedd o'n llwyddiannus?
- A oedd y cynhyrchiad yn symud yn dda – e.e. newid tempo, emosiwn ac ati er mwyn cynnal eich diddordeb?
- A fyddai rhai o'r syniadau cyfarwyddo yn gweithio ar gyfer cynhyrchiad o'ch drama osod?
- A oedd rhywbeth oeddech chi ddim yn 'i hoffi o ran cyfarwyddo?

Y GWISGOEDD, GWALLT A CHOLUR :

- Sut wisgoedd oedd ganddynt – pa gyfnod? Beth oedd arddull y cynhyrchiad?
- Pwy oedd yn gyfrifol am y gwisgoedd? A oedd lliw arbennig trwy'r cynhyrchiad? Oeddech chi'n credu y byddai'r cymeriad yn gwisgo'r math o ddillad oedd ganddo?
- A fyddai rhai o'r gwisgoedd, steil gwallt, colur yn gweithio ar gyfer cynhyrchiad o'ch drama osod.

DYLANWAD THEATR BYW

CROENDENA

Y GOLEUO A'R SAIN :

- A ychwanegodd yr LX a'r SFX at awyrgylch y ddrama?
- Yr LX – goleuo – sut greoedd y goleuo yr awyrgylch briodol? A oedd lliw arbennig? Gobo? Ar ba ganran - % oedd y goleuo? Beth oedd yn digwydd ar ddiwedd golygfa?
- Yr SFX – sain. A oedd cerddoriaeth yn rhan o'r ddrama? Ar y dechrau / diwedd/ yn rhan o'r ddrama er mwyn creu awyrgylch? Sut fath o gerddoriaeth? Pwy oedd wedi ei gyfansoddi? A oedd y gerddoriaeth yn cael ei ddefnyddio o dan y ddeialog – tansgorio? A oedd hyn yn ychwanegu at yr awyrgylch? A oedd sain arall i'w gael – swm car, ci yn cyfarth, ffôn yn canu? Pa mor effeithiol oeddynt?
- Oedd yna ganu yn rhan o'r cynhyrchiad? Oedd y canu yn llwyddiannus?
- Pa elfennau o'r SFX a'r LX oedd wedi dylanwadu arnoch ac y gallech eu defnyddio ar gyfer eich drama osod.

YMATEB Y GYNULLEIDFA

- Pa argraff a adawyd ar y gynulleidfa – oedden nhw'n mynd allan dan wenu, wedi'i cythruddo, wedi syfrdanu? Pa argraff ydech chi eisiau ar gyfer y ddrama osod? A fyddai hyn yn gweithio ar gyfer eich drama osod?
- A lwyddodd y cynhyrchiad yma i apelio at gynulleidfa gyfoes? Efallai bod y ddrama yn perthyn i gyfnod arbennig, ond sut oedd y cyfarwyddwr, cynllunydd set, sain, golau, gwisgoedd, gwallt a cholur wedi llwyddo i wneud i'r ddrama fod yn berthnasol i gynulleidfa heddiw?

GOLYGFYDD DEFNYDDIOL / ALLWEDDOL

- Pa olygfa / olygfeydd sydd wedi dylanwadu arnoch o ran syniadau, arddull, y defnydd o set, props, LX, SFX, y modd o symud o un golygfa i'r llall ac ati. Sut fydd e'r olygfa benodol yn gweithio o ran dylanwad ar eich drama osod?

DYLUNIO CROENDENA

GWEITHGAREDDAU DYLUNIO

Ar ôl gweld y cynhyrchiad rhwch eich barn a thrafodwch mewn grwpiau pa mor llwyddiannus oedd y set, gwisgoedd, gwallt a cholur ar gyfer y ddrama?

- A oedd y set yn gymorth i greu byd y ddrama?
- Beth wnaethoch chi ei hoffi am y set, y props – y lleoliadau?
- Oedd y set yn ychwanegu at awyrgylch y ddrama?
- Beth oedd eich barn am y gwisgoedd? Oedd yna thema o liw? Oedd y gwisgoedd yn creu y math o gymeriad oedd yn eu gwisgo?
- Beth oedd eich barn am y gwallt a'r coluro? Oedden nhw'n cyfleu sefyllfa'r cymeriadau ac yn ychwanegu at eich dealltwriaeth o'r hyn oedd wedi digwydd?
- Pa olygfeydd oedd y mwyaf llwyddiannus o ran y defnydd o set?
- Pa olygfeydd oedd y mwyaf llwyddiannus o ran y gwisgoedd?
- Fyddech chi wedi dylunio'r set yn wahanol? Ymha ffordd?



Syniad cychwynmol o'r set gan Cai Dyfan (Cynllunwyd Set Croendena).


DYLUNIO CROENDENA

DYLUNYDD SET

Bydd y dylunydd yn cyd-weithio gyda'r Cyfarwyddwr ac yn sicrhau bod ochr weledol y cynhyrchiad yn cael ei gwireddu. Mae'r dylunydd yn gofalu am holl agwedd weledol y cynhyrchiad a gellir dweud ei fod yn gyfrifol am synhwyrâu'r cynhyrchiad. Mae'r dylunydd yn gweithio gyda gofod gwag ac unwaith y bydd y Cyfarwyddwr ac yntau wedi penderfynu ar y math o lwyfan i'w defnyddio, bydd y dylunydd yn mynd ati i weithio ar y cynfas gwag hwnnw a rhoi bywyd iddo mewn gwirionedd.

Y mathau mwyaf poblogaidd o lwyfannau yw:

- y llwyfan proseniwm traddodiadol – 'proscenium'
- llwyfan cylch – 'arena'
- llwyfan gwth – 'thrust'
- llwyfan traws – 'traverse'
- llwyfan agored – 'end on'



Model cynnar o'r set gan Cai Dyfan (Cyflunydd Set Croendena).

DYLUNIO CROENDENA

Cyn i ddylunydd gychwyn ar unrhyw gynhyrchiad mae'n rhaid iddo wneud tipyn o ymchwil a chael ateb i nifer o gwestiynau cyn dechrau rhoi ei syniadau i lawr ar bapur:

- dylai ddarllen y ddrama cyn cyfarfod y Cyfarwyddwr fel bod ganddo syniadau i'w cynnig,
- yn y cyfarfod gyda'r Cyfarwyddwr, dylai holi beth yw ei weledigaeth ynglyn â'r cynhyrchiad, beth yw'r effaith mae am ei gael?
- pa fath o lwyfan mae'r Cyfarwyddwr am ei ddefnyddio?
- a oes gan y Cyfarwyddwr arddull arbennig i'r cynhyrchiad, bydd hyn wrth gwrs yn effeithio ar y modd y bydd y dylunydd yn gweithio.
- a yw cyfnod y ddrama yn bwysig. Mae drama gyfnod yn golygu tipyn o waith ymchwil er mwyn sicrhau bod y dodrefn a'r gwisgoedd yn perthyn yn gywir i'r cyfnod.
- faint o fynedfeydd sydd eu hangen?
- a oes angen newid set, pa fath o olygfeydd?
- a oes angen lefelau?
- a oes angen effeithiau arbennig? – (special effects)
- faint o actorion sydd yn y cynhyrchiad ac a fydd ar y set?
- beth yw maint y gofod ar gyfer y set, a oes anawsterau o ran siâp y gofod ac ati – mae yna gryn wahaniaeth rhwng neuadd bentref a llwyfan y prif theatrau.

DYLUNIO

CROENDENA

Yn dilyn y draffodaeth gyntaf gyda'r Cyfarwyddwr gall y dylunydd ddechrau rhoi ei syniadau i lawr ar bapur a chreu bwrdd syniadau (mood board) ac ati. Bydd hefyd yn mynd ati i greu model fechan o'r set er mwyn gweld beth sy'n gweithio. Bydd llawer iawn o newid ac addasu yn ystod y cyfarfodydd dilynol gyda'r Cyfarwyddwr. Bydd y model fechan yn gweithio i 'scale' ac mae'n holl bwysig bod y dodrefn a'r set yn gwbl gywir gan y bydd yr adeiladydd set yn gweithio i'r mesuriadau hyn.

GWEITHGAREDD

Chi yw'r DYLUNYDD ar gyfer Croendena. Ewch ati i roi lluniau a syniadau at ei gilydd o'r hyn yr hoffech chi weld o ran set, gwisgoedd, gwallt a cholur. Mae croeso i chi ddefnyddio elfennau o gynhyrchiad Frân Wen, neu fe allwch ail gynullunio'r set yn llwyr.

AMSER : A ydych chi am gadw at y cyfnod?

LLEOLIAD : Ble mae'r ddrama wedi ei gosod?

LLWYFAN: Gwth, Cylch, proseniwm, traws?

- Arddull y cynhyrchiad? Nifer o olygfeydd byrion, neidio nôl ac ymlaen mewn amser?
- A fydd gennych gefndir o rhyw fath? Sgrîn?
- Sut gellir cyfleu y gwahanol leoliadau ar y llwyfan?
- A fyddwch yn defnyddio defnydd ar y llawr - "floor cloth" neu bren?
- A fydd y set yn symbolaidd ? Beth ydych chi am ei bwysleisio, pa themâu?
- Pa liwiau ydych chi am ei weld yn y set?
- Pa fath o ddodrefn a phrops ydych chi am eu defnyddio yn eich cynhyrchiad?

GWISG, GWALLT A CHOLUR CROENDENA

DYLUNYDD GWISG, GWALLT A CHOLUR

Mae'r dylunydd gwisgoedd yn ran holl bwysig mewn unrhyw gynhyrchiad. Y gwisgoedd sy'n cwblhau'r darlun weledol mae'r cyfarwyddwr am ei greu. Mae gwisg yn awgrymu cyfnod, amser, lleoliad, arddull ac awyrgylch y ddrama ac mae gwaith ymchwil yn gwbl angenrheidiol er mwyn sicrhau fod y cynhyrchiad yn gwbl gredadwy. Mae'r un peth yn wir gyda gwallt a cholur ac mae'n holl bwysig ymchwilio yn fanwl er mwyn sicrhau bod y steil gwallt a'r math o golur yn driw i'r cyfnod dan sylw.

- Bydd angen ystyried lliw y gwisgoedd yn ofalus a thrafod gyda'r dylunydd set er mwyn sicrhau bod lliw y cynhyrchiad yn gywir.
- Bydd angen ymchwilio i'r cyfnod a'r math o ddefnydd oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y math o wisgoedd e.e. brethyn, sidan, dillad gaeaf, haf ac ati.
- Gall lliw hefyd symboleiddio teimlad, thema neu awyrgylch arbennig – e.e. rhyfel, cenfigen, cariad, tlodi, gwallgofrwydd ac ati. Gall lliw drawsnewid teimlad y ddrama yn gyfangwbl.
- Dewis y dillad cywir i'r achlysur neu'r digwyddiad o fewn y ddrama
- Wrth gynllunio gwisgoedd mae'n holl bwysig hefyd ystyried beth yw'r gofynion ar gyfer y cymeriad, e.e. dringo ysgol, rhedeg, dawnsio ac ati, Os yw'r wisg yn rhy dynn, bydd y cymeriad yn methu plygu ac felly bydd y wisg yn amharu ar allu'r cymeriad i berfformio. Felly rhaid bod yn ofalus wrth gynllunio'r wisg, rhaid i'r wisg gefnogi'r actor ac nid ei ddal yn ôl.
- Bydd colur yn gallu ychwanegu cymaint at gyfleu oedran, personoliaeth, tymer cymeriad ac ati.
- Rhaid sicrhau fod y colur yn cyd-fynd gydag arddull y ddrama, e.e. colur naturiolaid ar gyfer drama gyfnod, colur arallfydol ar gyfer gwaith dyfeisio yn y dyfodol ac ati.

GWISG, GWALLT A CHOLUR CROENDENA

GWEITHGAREDD

Ewch ati i ymchwilio a pharatoi nodiadau manwl a lluniau o'r math o wisgoedd yr hoffech eu defnyddio ar gyfer cymeriad Nel yn Croendena. Cofiwch egluro y math o golur y byddwch am ei ddefnyddio hefyd. Bydd yn rhaid i chi ystyried y canlynol:

- cyfnod hanesyddol y ddrama,
- arddull y cynhyrchiad,
- sut fath o ddefnydd a lliw fydd i'r gwisgoedd? A fydd thema o liw yn rhedeg drwy'r cynhyrchiad?
- sut fydd y gwisgoedd yn cyfleu personoliaethau'r cymeriadau?
- sut fydd gwallt a cholur yn cyfleu personoliaeth y cymeriadau?
- sut i adlewyrchu'r themâu yn y gwisgoedd?

Ewch ati i greu taflenni gwisgoedd a bwrdd syniadau o ran themâu ac ati.

DYLUNYDD SAIN A GOLEUO

CROENDENA

DYLUNYDD SAIN a GOLEUO

SAIN / CERDDORIAETH / SFX

Mae cerddoriaeth yn bwysig iawn mewn unrhyw gynhyrchiad theatrig. Mae cerddoriaeth neu sain yn gallu ychwanegu cymaint at gynhyrchiad i greu emosiwn yr olygfa:

- Gellir defnyddio tansgorio/ 'underscore' o dan y ddeialog, hynny yw cerddoriaeth tawel llawn emosiwn mewn golygfa drist, cerddoriaeth â rhythm pendant i gyfleu hapusrwydd a chyffro, cerddoriaeth dwys, trwm sy'n cyflymu er mwyn cyfleu tensiwn.
- Gellir defnyddio 'leitmotif' i gyfleu thema neu gymeriad arbennig. Dyma gyfres o nodau neu frawddeg cerddorol sy'n awgrymu cymeriad neu ddigwyddiad arbennig ac felly yn arwain meddwl y gynulleidfa i feddwl mewn ffordd arbennig.
- Gellir defnyddio 'drôn' i greu awyrgylch, sef un nodyn hir ar ddechrau golygfa i greu awyrgylch sinistr.
- Gellir defnyddio 'soundscape' - h.y. adar yn canu, glaw, swm anifail, ffôn yn canu ac ati i greu awyrgylch naturiolaid.
- Pa fath o gerddoriaeth sy'n cyfleu'r cyfnod - caneuon gwerin, emynau, caneuon pop ac ati?
- A fydd yna elfen o gerddoriaeth byw yn y cynhyrchiad?
- A fydd yna ddefnydd o 'white noise' sef swm y pen, sain ymyriant? [interference]
- A fydd yna seiniau anifeiliaid, sgrechfeydd, ffrwydriadau ac ati?
- A fydd angen cerddoriaeth neu sain i glymu golygfeydd at 'i gilydd?
- A fydd y math o offeryn fydd yn creu'r gerddoriaeth yn bwysig i gyfleu'r cyfnod neu'r arddull, y genre, y wlad ayb.

DYLUNYDD SAIN A GOLEUO

CROENDENA

GOLEUO LX

Mae goleuo yn rhan allweddol o unrhyw gynhyrchiad, gall newid naws, awyrgylch neu emosiwn golygfa mewn eiliad.

- Bydd angen ystyried yn ofalus pa liwiau fydd eu hangen ar y cynhyrchiad, pa emosiwn mae lliw arbennig yn ei gyfleu?
- A fydd angen golau sbot neu byllau o olau ar wahanol ardaloedd o'r llwyfan i bwysleisio rhywbeth arbennig e.e. sut fydd y ffrwydriadau yn cael ei gyfleu, sêr, haul, lleuad ac ati?
- A fydd angen defnyddio gobo?
- A fydd yna ddefnydd o fwg neu rew sych i greu naws y tywydd?
- Pa amser o'r dydd yw hi a sut gellir cyfleu hynny gyda'r goleuo?
- Fel dylunydd sut wnewch chi symud o un stâd ('state') i'r llall – pylu, croes-byllu, snap, pylu araf/ sydyn?
- Beth fydd canran y golau - % - er mwyn creu naws ac awyrgylch neu gyfleu pa awr o'r dydd yw hi?



DYLUNYDD SAIN A GOLEUO

CROENDENA

TERMAU DEFNYDDIOL AR GYFER Y DYLUNYDD SAIN

SAIN	YSTYR
Tansgorio / Underscore	<i>Cerddoriaeth dawel o dan y ddeialog sy'n cynorthwyo i greu awyrgylch neu emosiwn arbennig, e.e. cerddoriaeth ddwys, dawel, rhythm pendant, cyrraedd uchafbwynt ac ati.</i>
Leitmotif	<i>Cyfres o nodau neu frawddeg gerddorol sy'n awgrymu cymeriad neu ddigwyddiad arbennig ac felly yn arwain meddwl y gynulleidfa i feddwl mewn ffordd arbennig.</i>
Drôn	<i>Un nodyn hir yn cael ei ddal am amser er mwyn creu awyrgylch o ofn neu deimlad sinistr.</i>
Soundscape	<i>Adar yn canu, glaw, trafndiaeth ar y stryd fel cefndir ac ati.</i>
Cerddoriaeth byw	<i>Cerddoriaeth byw ar y llwyfan – efallai yn cael ei chwarae gan yr actorion.</i>
Sain gwyn / White noise	<i>Sŵn y pen, ymyriant (interference) Sain barhaol i guddio sŵn arferol. Yn cael ei ddefnyddio i yrru babis i gysgu!</i>
Rifle microphone	<i>Microphone sy'n gallu codi sain o bell.</i>
Meic radio / radio microphone	<i>Microphone sydd fel arfer ar wyneb, wedi ei osod yng ngwallt yr actor neu wedi ei glipio ar wisg yr actor.</i>
Meic llaw / hand-held	<i>Microphone sy'n amlwg yn cael ei ddal yn y llaw, yn ddefnyddiol i ganu</i>

DYLUNYDD SAIN A GOLEUO

CROENDENA

SAIN	YSTYR
Uchelseinydd	<i>Bydd uchelseinydd da yn gallu taflu sain o amgylch y gofod a gellir eu gosod mewn gwahanol lefydd er mwyn cael y sain i ddod o bob cyfeiriad. Os oes angen i'r sain ddod o radio ar y llwyfan, bydd angen i'r seinydd fod y tu ôl i'r radio er mwyn iddo swnio'n gredadwy.</i>
Sain sy'n amgylchynu / surround sound	<i>Creu'r ymdeimlad bod y sain o amgylch y gynulleidfa, fel mewn sinema.</i>
Adlais / echo	<i>Y llais yn cael ei daflu nôl fel petai'r actor mewn ogof, gellir hefyd ddefnyddio adlais i greu awyrgylch arbennig i godi ofn neu greu cymeriad mawr, bygythiol.</i>
Effeithiau sain	<i>Effeithiau sain wedi eu recordio – ffenest yn torri, glaw, trafndiaeth, gwn ayb.</i>
Acwsteg	<i>Sut mae sain yn teithio o amgylch ystafell neu ofod. Bydd gosod uchelseinyddion yn y mannau cywir yn holl bwysig i dechnegydd sain.</i>
Lefel y sain	<i>Wrth wyllo cynhyrchiad mae'n rhaid cael y lefel cywir i'w synnau ac felly bydd 'sound check' yn holl bwysig i'r Cyfarwyddwr benderfynu pa mor uchel neu dawel y bydd angen pob ciw.</i>

DYLUNYDD SAIN A GOLEUO

CROENDENA

TERMAU DEFNYDDIOL AR GYFER Y DYLUNYDD GOLAU

GOLAU	YSTYR
Gels	<i>Mae gels yn cael eu defnyddio i roi lliw o flaen lamp. Darn o blastig tenau mewn cannoedd o liwiau.</i>
Gobo	<i>Defnyddir gobo i greu awyrgylch neu i ychwanegu delwedd neu ddarlun haniaethol ar llwyfan – e.e. siâp dail ar lawr y llwyfan neu ar y seiclorama; croes i gyfleu crefydd; calon i gyfleu cariad; adeiladau uchel (skyscrapers) i gyfleu dinas; colomen i gyfleu heddwch; fflamau tân i gyfleu adeilad yn llosgi, cymylau a.y.b. Gellir cael catalog gyda channoedd o ddelweddau gwahanol. Caiff y gobos eu creu o ddarnau o fetel tenau sy'n cael eu torri i'r siâp ac yna eu gosod mewn lamp proffil.</i>
Pwll o olau	<i>Creu pwll o olau ar y llwyfan, goleuo rhan o'r llwyfan.</i>
Rigg	<i>Y rig yw'r fframiau metel sydd uwchben y llwyfan lle bydd y lampau yn cael eu hongian a defnyddir y term rigio pan fydd y lampau yn cael eu gosod neu eu symud i'r manau cywir ar gyfer y cynhyrchiad.</i>
Fresnel	<i>Dyma olau sbot sydd ag ymyl feddal i'r cylch o olau ac mae modd cael pwll o olau sy'n gallu cael ei ledaenu neu ei leihau fel y galw.</i>
LLifolau / Flood	<i>Lampau sy'n rhoi llif da o olau dros y llwyfan.</i>
Sbot proffil/ Profile spot	<i>Lamp sy'n gallu creu cylch neu sgwar o olau sy'n benodol ar gyfer un man o'r llwyfan gydag ymyl galed neu feddal. Gellir ei defnyddio pam mae angen goleuo un cymeriad neu wyneb cymeriad pan fo monolog neu i gyfleu unigrwydd neu sgwâr gyda gobo bariau i gyfleu bod rhywun mewn carchar.</i>

DYLUNYDD SAIN A GOLEUO

CROENDENA

SAIN	YSTYR
Sbot dilyn / Follow spot	<i>Sbot sy'n gallu dilyn cymeriad o amgylch y llwyfan. Fe'i defnyddir yn bennaf mewn sioe gerdd lle mae cymeriad yn canu ac yn symud o amgylch y llwyfan.</i>
Pelydr / beam	<i>Pelydr y golau.</i>
Olwyn lliw	<i>Y llais yn cael ei daflu nôl fel petai'r actor mewn ogof, gellir hefyd ddefnyddio adlais i greu awyrgylch arbennig i godi ofn neu greu cymeriad mawr, bygythiol.</i>
Ripple tube	<i>Math o olwyn sy'n cael ei rhoi o flaen lamp gyda rhyw 4 cylch gwahanol liw ac yn troelli i gyfleu golygfa llawn lliw – e.e. mewn disco, neu 'ripple tube' i greu dŵr yn crychdonni (ripple).</i>
Symudyddion / movers	<i>Math o lampau sy'n gallu troi neu symud dros y llwyfan.</i>
Golch o olau / General cover	<i>Does yna ddim y fath beth â goleuo sylfaenol! Mae pob dyunydd goleuo yn cynllunio'n ofalus ar gyfer pob cynhyrchiad. Ond disgrifir 'general cover' fel golch o olau cyffredinol dros y rhan fwyaf o'r llwyfan er mwyn sicrhau ein bod yn gweld yr actorion, neu i gyngerdd, areithiau neu gerddorfa ar lwyfan ac ati.</i>
Rhagosod / preset	<i>Y math o olau sydd ar y llwyfan pan ddaw'r gynulleidfa i mewn. Fel arfer bydd y dylunydd am greu rhyw emosiwn neu deimlad arbennig cyn i'r ddrama gychwyn neu i roi pwyslais ar ran o'r llwyfan e.e. llun arbennig o berson ifanc mewn gwisg milwr a'r ddrama yn cychwyn gydag angladd y milwr; cadair olwyn ynghanol yr ystafell sy'n awgrymu bod y ddrama am berson sy'n anabl.</i>
Croes bylu	<i>Symud o un effaith golau i'r llall trwy gael yr effaith i feddalu i mewn i'w gilydd fel nad ydych yn mynd mewn i ddüwch.</i>

DYLUNYDD SAIN A GOLEUO

CROENDENA

SAIN	YSTYR
Blacowt/ duwch	<i>Fel arfer ceir düwch ar ddiwedd y ddrama yn araf neu fel snap sydyn. Ni cheir düwch rhwng golygfeydd yn aml gan fod modd croesbylu rhwng golygfeydd ac ati.</i>
Pylu'n araf /Slow fade	<i>Pylu yn araf ar ddiwedd golygfa neu ar ddiwedd y ddrama dros gyfnod o eiliadau.</i>
Snap	<i>Y golau yn diffodd yn gyflym mewn un symudiad i gyfleu awyrgylch o ofn, syfrdan, neu dyweder i gyfleu bod gwn yn saethu rhywun a bod angen düwch sydyn.</i>
%	<i>Canran - faint o olau sy'n cael ei ddefnyddio ar y llwyfan, bydd hyn yn dibynnu yn llwyr ar ba awyrgylch a naws yr ydych am ei greu mewn golygfa. Mae hyn yn union yr un syniad a chreu awyrgylch mewn lolfâ min nos gyda nifer o lampau ar wahanol ganranau. Mae canran y golau wrth gwrs yn gallu dylanwadu ac arwain emosiwn arbennig yn y gynulleidfa.</i>
Golau godre /Foot lights	<i>Lampau sy'n cael eu gosod ar flaen y llwyfan yn isel er mwyn taflu golau cryf ar wynebau'r actorion.</i>
Golau o'r ochr /Side lights	<i>Goleuo o ochr y llwyfan er mwyn goleuo hanner y llwyfan mewn golygfa ddramatig. Effaith rhy ddramatig efallai mewn drama cwbl naturiolaid.</i>
Golau o'r cefn / Back light	<i>Yn amlwg nid yw'n goleuo'r wyneb ond eto yn gallu bod yn ychwanegiad dramatig o bryd i'w gilydd.</i>
Meinwe / Gauze (scrim)	<i>Defnydd tenau sy'n gallu cael ei oleuo o'r ddwy ochr. Wrth oleuo o'r cefn bydd yn dryloyw neu o'r blaen mae'n anrhyloyw ac felly gellir newid set y tu ôl iddo ayb neu ei ddefnyddio i awgrymu rhyw le dieithr neu fel yn Les Mis – y milwyr a fu farw.</i>

DYLUNYDD SAIN A GOLEUO

CROENDENA

SAIN	YSTYR
Pyrotechnics	<i>Tân gwyllt arbennig ar gyfer y theatr fel streamers ar gyfer dathliad ac ati.</i>
Seiclorama / Cyclorama – Cyc	<i>Wal wen neu ddefnydd gwyn sydd yng nghefn y llwyfan er mwyn gallu ei ddefnyddio i daflu lliw neu ddelweddau arno.</i>
Bariau t / t-bars	<i>Bariau symudol mewn siâp T er mwyn hongian lampau ac yn ddefnyddiol iawn i gwmni theatr symudol neu i oleuo rhannau mewn theatr promenâd ac ati.</i>
Lampau cwrso / Chasers	<i>Gellir amseru'r golau er mwyn eu symud o amgylch y llwyfan i greu y teimlad o symud ar draws y llwyfan wrth fflachio'r golau ymlaen ac i ffwrdd.</i>
Strôb/ strobe	<i>Golau sy'n symud ar guriad cyflym ac sy'n effeithiol iawn ar llwyfan wrth greu'r argraff o symud yn araf ('slow motion') fel mewn 'chase' mewn pantomeim.</i>
Pêlen wydr / Mirror ball	<i>Pêl sydd wedi'i chreu allan o gannoedd o ddrychau bach sy'n cael ei hongian uwch ben y llwyfan ac sy'n troi ac yn taflu cylchoedd o olau o gwmpas yr ystafell fel mewn disco neu neuadd ddawns.</i>
Peiriant mwg / Smoke machine	<i>Peiriant sy'n chwythu mwg er mwyn cyfleu teimlad o wead i'r llwyfan ar ddechrau cynhyrchiad; gwlith yn codi yn y bore; effaith tân ar y llwyfan ac ati. Mae'r mwg yma yn codi yn araf ac yn llenwi'r llwyfan.</i>
Peiriant rhew sych/ Dry ice machine	<i>Mae'r peiriant yma yn oer ac yn creu anwedd wrth roi rhew mewn dŵr. Mae'n gallu lledaenu ar hyd llawr y llwyfan.</i>
Ffocysu	<i>Bydd y dylunydd golau yn ffocysu pob lamp ar y rig er mwyn sicrhau fod y lamp yn anelu at ran arbennig o'r llwyfan, neu yn bwl mawr, bach o olau ac yn sicrhau bod gobo mewn ffocws, a bod ymyl galed neu feddal i'r proffil.</i>
Defnydd llawr / Floor-cloth	<i>Defnydd cynfas cryf sy'n gallu cael ei roi ar lawr y llwyfan a'i beintio i greu effaith arbennig. Gellir hefyd daflu golau a gobo arno i greu effaith fel mewn coedwig ac ati.</i>
Cefnlen / Backcloth	<i>Defnydd wedi ei baentio i greu golygfeydd ac yn cael ei hongian ar y fly yng nghefn y llwyfan.</i>

DYLUNYDD SAIN A GOLEUO

CROENDENA

GWEITHGAREDD

Darllenwch olygfa agoriadol y ddrama a thrafodwch mewn grwpiau sut y byddwch yn cyfleu y sain a'r golau ar gyfer yr olygfa hon. Cofnodwch eich syniadau ar y sgript i ddangos ble fydd y ciws SFX ac LX. Ewch ati i chwilio am y synnau ar 'You Tube' ac ati.

- Pa fath o llwyfan fydd gennych?
- Penderfynwch ar eich lleoliadau ar eich llwyfan.
- O ba gyfeiriad y daw'r cymeriadau i'r llwyfan?
- A fydd gennych ddefnydd o sgrin, cefnlen, dylunydd?
- A fyddwch yn defnyddio defnydd ar y llawr - "floor cloth" neu bren?
- A fydd y set yn symbolaidd ?
- Pa liwiau ydych chi am ei weld yn y set?
- Lleolwch y dodrefn a'r props anghenrheidiol ar eich llwyfan.
- Pa fath o ragosod / 'preset' ydech chi am ei gael o safbwynt sain a golau?
- Pa fath o gerddoriaeth ydech chi am ei ddefnyddio? Cryfder y sain? Math o offerynnau? Pa awyrgylch ydech chi am ei greu gyda'r sain?
- Pa fath o awyrgylch ydech chi am ei greu o safbwynt goleuo?
- Pa amser o'r dydd yw hi?
- Beth fydd canran y golau?
- Y defnydd o gobo, peiriant mwg, lliwiau?
- Sut fydd y sain a'r golau yn newid yn ystod yr olygfa?

GOLYGFA 1

Gwanwyn. Ma'r creaduriaid yn dechra deffro. Yn barod i ddod allan o'u cuddfannau.

Bloda gwyllt yn blaguro yn y cloddia.

Dydd yn ymestyn. Awyr majenta machlud haul. Brychni ar wyneba.

Nos Sadwrn.

Ma'r haul yn gneud ni'n horni.

Da ni allan o'n cuddfannau. Ar gobaith o'r noson ora'r rioed yn cosi ar yr awel.

Tŷ Gwyn ar ben yr allt ac yn y pelltar mae Garn yn ein gwyllo ni.

Breichia di plethu.

Kit, Elen a fi.

Da ni'n cerddad i fyny.

Dw i ar dân bo fi di gallu perswadio rhein i ddod i Tŷ Gwyn heno ma.

Dosna'm problem cael serve. Ma bod yn 17 beisicli fatha bod yn 18 eniwe.

Dydi Tŷ Gwyn ddim rili yn scene ni fel arfar. Yndan, da ni'n locals... ond ddim yn locals, locals.

Da ni'n agosau at y drws, ac mae 'na growd di casglu tu allan, yn jîns a sgertia.

Hogia a genod. Ogla smôcs a tail yn gymysg efo aftershave.

3

Rhaid i ni ddadblethu ein breichia i gerddad drwy'r drws cul.

Ac mae amser yn arafu wrth i mi gerddad i mewn gynta.

Pawb yn eu llwyth arbennig, di marcio'u llefydd yn barod.

Ym mhen pella'r bar – y locals hŷn.

Bob un pen yna'n troi rownd i sbio arna ni, a'u llgada nhw'n sganio ni fyny a lawr. Eu llgada nhw'n crwydro i lefydd na ddylan nhw.

Ffarmwrs. Rhai yn gyhyrog, rhai'n fwy...chuncky – rhei efo mullets sy'n edrach fatha fferet ar eu penna. Tua deg ohonyn nhw yn dwrwr mawr rownd y bwrdd. Ar peintia cynt i glwad yn eu gweiddi siarad a'u chwerthin. Dydi nhw'm yn cymryd sylw ohonan ni.

Yr huns sydd yma ar fws pen blwydd. Balwms mawr powld yn datgelu'r oedran arswydus – 50! A bob hyn a hyn, maen nhw'n torri mewn i ffit o chwerthin, tha hyenas.

Genod 6'2. Blwyddyn hŷn na ni, ond fel petae nhw di byw sawl bywyd yn barod. Yn gariadon i rai o'r ffarmwrs. Yn sipian Gin and Tonics. Yn foundation a contour perffaith. Ond maen nhw'n ein gweld ni. Yn sdydio pob modfadd ohonan ni efo llygaid cathod mawr. A wedyn troi i ffwrdd, heb ein cydnabod.

Maen nhw'n gweld bod ni'n lwyth newydd. Gwahanol. Misfits.

Kit, yn ei wide leg jeans, converse a crop top – ei gwallt cyrls tywyll hi mewn bob perffaith o fler. Backpack bach lledar ar ei chefn, a potal bach o jîn wedi cuddio ynddo fo.

Elen. Benfelen. Wariar. Hogan ffarm ond yn edrach yn ffwc o glam heno 'ma yn ei ffrog floda. Jaced denim di clymu rownd ei chanol. Coesa ffêc tan.

A... fi.

4

Ma pawb yn troi eu penna yn ôl at eu peint ac ma amsar yn dadrewi. Yn yr eiliad yna, ma Elen awê, yn gneud bee-line am y bar a dechra siarad fô rhei o'r hogia yn barod.

Dw i di llgatau bwrdd bach sy'n y gornal. Da ni'n callu cuddio'n fama,

Ond dwi'n gallu gweld pawb a bob dim.

Dw i ond yn chwilio am un person. Ond fedra i ddim ei weld o.

Ma Kit yn estyn y botal jin o'i bag a deud tha fi yfad sip, yn sdrêt. Ffycing afiach heb lemonêd. Ond ar ôl rom bach, dwi'n teimlo fy nhafod i'n llacio ac ma 'na sglein yn llgada Kit sy'n deud wrthaf fi bod ni'n mynd i gal noson dda.

Dwi'n mynd i nôl diod wrth y bar. Ac wrth i mi ofyn am 'ddau beint plis'

Mae rhywun yn cyffwrdd fy nhin wrth neud. Dwimbo os mai trio neu mistêc ta be ond wrth i gerddad nôl at y bwrdd ma boch fy nhin i'n llosgi, fel tasa ei law o dal yno.

Dwi wrthi'n mesijio Dad yn gofyn os fysa fo'n oce iddo fo nôl ni am hanner nos yn lle unarddeg. Swni'm yn deud bod mam a dad yn strict, ond bob dim dwi'n gofyn am – liffd, pres, whatever, dwi'n goro diodda'r bregath gynta. Ar ôl i'r tic bach droi'n las dwi'n codi fy mhen a -

Dwi'n weld o.

Mae o yma.

A dosna'm byd arall o fy nghwmpas i yn bodoli.

Ma Elen yn ôl a mae'n ploncio'i hun ar y drydedd gadair ac yn tyrchu drwy ei bag. Mae'n edrych arna i – gen ti un does Nel? Be? Vaseline?

Sori, dwi'n deud. Oni'n bell i ffwrdd.

'Oni'n sylwi' ma Kit yn ddweud. 'Dyna pam o chdi mor keen i ni ddod yma heno ma.'

Mae pennau'r ddwy yn troi i'w gyfeiriad.

5

Guto.

Guto Cae Isa.

Dio di gweld fi? Dio'n gwbod bo fi yma?

Fyswn i'n ei nabod o'n rwla. Yng nghanol torf o bobl. Fysa llgada fi'n cael eu tynnu syth ato fo.

Mae o di nythu ei hun rhwng ei ddau ffrind gora. Elgan di'r prif chief. Boi rygbi.

Tal. Clunia masif. Pawb yn ffansio fo. Ond dwi tha pysgodyn ar linyd Guto.

Ma Elen yn deud bod ganddo fo ddim personoliaeth, ond swil dio. Mae o'n cymryd amsar i ddod i nabod o'n iawn... fel ni gyd yn y bôn.

Ma Kit di cymryd yn ei erbyn o eniwe achos di'm yn keen ar y criw. Swnllyd...macho... intimidating. Ac mae'n dal i gofio Elgan yn galw hi'n freak hyll yn ysgol bach.

Ti'm yn gallu anghofio rheir geiria.

Ma nhw i gyd yn chwerthin am wbath. Gwyneba nhw i gyd yn goch o'r cwrw a gwres y pyb.

Fo nath gychwyn siarad efo fi. Wel, gyrru'r emoji yma nath o i lun oni di roi fyny – golygfa o ben Garn. Wedyn, jesd dechra siarad.

Dw i methu gweld be mae o yn weld ynddaff fi.

Ffoc, dwi'n teimlo'n dew.

'Ti'n sdyning' ma Kit yn ddeud.

Ffoc off, nadw.

Digon hawdd iddi hi ddeud, sna'm owns o fflat arni a ma hi jesd tha pixie bach cwl heb hydnoed trio.

6

Ma'r pixie sdyning yn mynd on a deud bod pobol yn rhoi gormod o bwyslais ar sut ma nhw'n edrach. Yn diwadd dio'm yn cyfri.

Mae o yn cyfri. Sneb isio snogio personoliaeth.

Saib.

Ers i Guto ddechra siarad efo fi, 'ma 'na wbath di deffro yndda i.
Ella mod i'n ddel?
Dw i rioed di teimlo'n ddel yn fy mywyd.
Dwi'n meddwl bo fi di sbio ar bob un llun sganddo fo ar ei facebook. BOB UN. A facebook ei chwaer o, ei fam o – dwi hydnoed di gweld llun o'i hen anti o mewn bicini yn Lanzarote.
Tecsdi. Mae'n anodd trio darllan rhwng y llinella.
Ma'r tir neb yn conffiwrsing a dwi'm yn gwobod be mae o isio weithia.
Nath o ddeud wrthai fodo'n mynd allan i Tŷ Gwyn heno.
Di cal cyfnod uffernol o brysur ar y ffarm, wyna, bla bla bla. Felly oddan nhw i gyd yn mynd allan heno.
A... digwydd bod – ma Kit, Elen a fi yma fyd.

Saib.

Dw i newydd ddal ei lygad o. Y llgada mawr brown 'na, yn sgleinio fatha dwy farblan.
Dwi'n meddwl nath o roi hanner gwen, ond dwi'm yn siŵr chwaith.
Ma Elen yn rhoi pwniad i'n ochr i ac yn gneud stumia i gyfeiriad Guto. Ma hi di dechra dal hi, a mai'n meddwl bod hi'n bod yn gynnwl.
Kit yn troi ei llgada. Ar Elen neu ar Guto. Dwi'm yn siŵr.

7

Dwi'n mynd at y bar.
Pwyso fy mrechia arno fo a mae o'n sdici i gyd, ac wan dwi'n ogleuo fatha cymysgedd o gwrw a VK yn lle Daisy, Marc Jacobs.

Gai tri corona plis?
Saib.
A tri jagerbomb fyd.
Saib.
Diolch. Sganddoch chi leim?
'Nagos.'
Oce, dio'm ots.
Dwi'n cerddad at y bwrdd a ma 'na hogyn yn hofran o amgylch Kit.
Dwi'n gweld Kit yn rowlio'i llgada. Man troi ataf fi.

'Dwi'n gwobod pwy ti.'
Ma hwn yn 35. Oleia. Sgidia pwdin. Crys check. Gilet.
Pwy dwi ta?
'Cneithar Elis Tyddyn Du di hon.'
Da iawn chdi.
'Sut job ma'n neud ar ffarm 'na ers i'w dad benderfynu cicio bwcad ta?'

Dwi'n rhewi.
'Ffwc o job i wbath bach tena tha fo yndi?'

8

Trio ffendio geiria... wbath, jesd wbath i ddeud yn ôl.
Allai'm meddwl.

Ma Elis yn neud yn iawn.
'Dio di gadal coleg wan do? Ffarmio full time llu?'
Dros dro... dwi'm yn siŵr iawn be di blania fo.

‘Be oddo’n falu cachu fo ryw paintings dwa? Pansan ffwc.’
 Dwi’n gallu teimlo’n gwaed yn pwmpio yn fy nghlust dwi mor, mor ffying blin – ond mae Elen yn camu i’r adwy.
 ‘Iawn, dos wan i fusnesu.’
 Ond ma’n dal i bwyso’n simsan dros y bwrdd, yn anelu am Kit.
 ‘A pwy wti ta? Hwn ta hon? Gwallt bach gen ti dos?’
 Mae o’n symud ei wynab at fy nghlust i ac yn cogio sibrwd, er fodo’m yn sibrwd o gwbl go iawn. Ma’i dafod o’n dew wrth siarad.
 ‘Bedi hi, gê ia?’
 Be?
 ‘Lesbian.’
 Dw i isio hitio’r ffycar.
 Be dduda i?
 Wbath fatha... yndi achos dynion fel chdi... achos dynion fatha chdi sy’n rhoi hi off dynion?

Cyn fi feddwl mwy ma Kit yn gorffan downio ei chorona a’i daro lawr ar y bwrdd.
 ‘Dwi’m yn gwbo be dwi, ond os fyswn i, pam sa raid mi ddeud wrtha chdi?’

9

Ma Elen yn deud wrtho fo i ffwcio’i o’ma. Mae o’n gwrando arni.
 Da ni gyd yn ddistaw am funud. Dwi’n sbio draw ar Kit a mae’n edrach tha bo hi ar fin crio. . . ond na. Torri gwynt.
 Omaigod, sori - mai’n deud. Di downio’r corona rhy sydyn yn ei gwylltinab.
 A ma’r dair ohonan ni’n marw chwerthin. Chwerthin fel tasa na ddim fory.
 Chwerthin fatha bod neb yn sbio arna ni.
 Mae ‘na WEEEEI mawr yn dod o gyfeiriad y bwrdd snwcer. Ma genod 6’2 a’r hogia di cymysgu erbyn wan. Mae’r genod yn troi eu llgada pan mae’r hogie yn fforsio ei gilydd i downio’i beint.
 Ond mewn ffordd hoffus maen nhw’n neud. Ffordd adnabod.
 A finna’n sbio arnyn nhw o bell.
 Dwi’n gweld sgidia pwdin yn cerddad o gyfeiriad y toilets. Neud yn siwr fod o di rwbio’r powdr off ei drwyn.
 A boi arall, a boi arall.
 Sa nhw ond yn gwbo mor amlwg i bawb ‘dio.
 Dwi dal yn flin am be udodd o am Elis.
 Cefndar, ond mwy tha brawd.
 Talentog. Annwyl. Meddal.
 Pan nath o adael i fynd i Brifysgol mis Hydref dwyth, oddo fel fod o di tyfu mewn iddo fo’i hun.
 Oni’n gallu gweld yr hyder tawel, newydd ‘ma yn instastories fo. Yn y dillad oddo’n wisgo.
 Oddan ni gyd yn ddisgwyl o rywbrud. Odd Yncl Alwyn di bod yn sal am dipyn.
 Ond ddim mor sydyn a hyna.

10

Gafodd Elis ymestyn ei adennydd am chydig fisoedd.
 Rŵan mae o nôl adra.
 Yn trio llenwi sgidia ei dad.
 Ei adennydd o di clwyfo.
 A dwi’n gwbo mod i mor hunanol yn meddwl –
 Dw i byth isio i huna ddigwydd i fi.
 Dw i isio dewis be dwi’n neud, pwy dwi isio bod.
 Felly heno, dwi’n mynd amdani.

PECYN ADNODDAU

CROENDENA

GWEITHGAREDD

YR ACTOR

Ewch ati i baratoi nodiadau manwl ar gymeriad Nel yn y ddrama. Gallwch wneud nodiadau mewn llyfr neu ar bapur mawr ar y wal – ‘Role on the wal’ neu greu taflen ‘Adnabod cymeriad’. Dadansoddwch y cymeriad yn fanwl gan sicrhau eich bod yn adnabod y cymeriad yn dda ac wedi creu ‘stori gefn’ y cymeriad er mwyn creu portread cwbl ddidwyll ohono

- CYMERIAD – Disgrifiad manwl o’r cymeriad
- Ei phersonoliaeth ac ati.
 - Pam mae hi’n ymddwyn ac ymateb fel y mae hi? Beth sydd wedi digwydd iddi cyn yr olygfa hon? Beth yw ei statws o fewn yr olygfa?
 - Beth yw CYMHELLIANT y cymeriad - prif nod? Ydy’r cymeriad yn cyflawni ei nod? Beth mae’r cymeriad ei eisiau yn yr olygfa a sut mae’n mynd ati i’w gael? Beth neu pwy yw’r rhwystr? A oes yna is-destun o fewn yr olygfa ddylai fod yn amlwg?
 - A yw’r cymeriad yn newid yn ystod cwrs y ddrama? Ym mha ffordd? Os nad ydyw, pam? Ydy’r ddrama ‘n cyflymu neu arafu pan ymddangosa’r cymeriad?
 - A’i cymeriad sy’n rheoli’r digwyddiadau neu a yw’r cymeriad yn cael ei reoli gan eraill? A yw’r cymeriad yng nghanol y digwyddiadau neu ar yr ymylon?
 - Beth yw’r berthynas rhwng yr actor â’r gynulleidfa? A ddylai’r gynulleidfa ymlacio neu deimlo tyndra pan ddaw’r cymeriad i’r llwyfan? Sut mae’r gynulleidfa i fod i deimlo tuag at y cymeriad – casineb, trueni, hoffter?

PECYN ADNODDAU

CROENDENA

SYMUDIADAU

- Beth yw iaith corff y cymeriad?
- Sut mae'r cymeriad yn cerdded?
- Pan nad yw'r cymeriad yn symud, pa safle/siâp neu agwedd corfforol mae'r cymeriad yn ei gymryd yn naturiol?
- Sut mae'r cymeriad yn eistedd?
- Sut mae'r cymeriad yn dal ei ben, gwddf, dwylo, pengliniau, traed a.y.b?
- A oes rhan o'i chorff y mae hi'n ymwybodol ohono?
- Cofiwch roi safle cychwynnol a gorffen y cymeriad a ble ar y llwyfan mae nhw.

LLAIS

- Sut fath o lais sydd gan y cymeriad?
- A oes ganddi acen?
- Ydy e'n lais ysgafn/ dwfn?
- A yw'r cymeriad yn siarad yn gyflym/araf? Tempo.
- Beth yw tôn y llais? Ydi'n rhoi pwyslais ar ambell air a pham?
- Ydi'r llais yn dangos tymer neu emosiwn arbennig? Pam?

PECYN ADNODDAU

CROENDENA

SYMUDIADAU

- Beth yw iaith corff y cymeriad?
- Sut mae'r cymeriad yn cerdded?
- Pan nad yw'r cymeriad yn symud, pa safle/siâp neu agwedd corfforol mae'r cymeriad yn ei gymryd yn naturiol?
- Sut mae'r cymeriad yn eistedd?
- Sut mae'r cymeriad yn dal ei ben, gwddf, dwylo, pengliniau, traed a.y.b?
- A oes rhan o'i gorff y mae'n ymwybodol ohono?
- A yw'r cymeriad yn mynd yn agos at / cadw draw oddi wrth eraill ar y llwyfan? Cynefin (proxemics) Pam mae hyn?
- A fydder cymeriad yn cyffwrdd ag eraill?
- A yw'r cymeriad yn edrych i lygaid cymeriadau eraill neu rai pobl penodol yn unig?
- Cofiwch roi safle cychwynnol a gorffen y cymeriad a ble ar y llwyfan mae nhw.

LLAIS

- Sut fath o lais sydd gan y cymeriad?
- A oes ganddo acen?
- Ydy e'n lais ysgafn/ dwfn?
- A yw'r cymeriad yn siarad yn gyflym/araf? Tempo.
- Beth yw tôn y llais? Ydio'n rhoi pwyslais ar ambell air a pham?
- Ydi'r llais yn dangos tymer neu emosiwn arbennig? Pam?

DADANSODDI

DISGRIFIAD O'R CYMERIAD

CYMHELLIANT / PRIF NOD

SYMUDIADAU A
IAITH CORFFOROL

LLAIS

